

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Mawrth, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Siôn Williams

### **107. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod wyneb yn wyneb a diolchodd i'r Cyngorydd Michael Strain am ei gymorth gyda'r cyfarpar 'zoom' yn ystod y misoedd diwethaf.

### **108. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Noder y datganiadau buddiant personol o dan yr eitem berthnasol.

### **109. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg CHWEFOR, 2022**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 14eg Chwefror, 2022. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cyngorydd Carys H. Evans, a phawb yn eu derbyn.

#### **Materion yn codi**

#### **a) Eitem 99 – Materion Ffyrdd**

**Cyflwynwyd** ymatebion gan:

- (i) Peiriannydd Rhanarthol Ardal Dwyfor o Gyngor Gwynedd o berthynas i'r ffordd Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes, fel a ganlyn:  
"Yn anffodus, ni fydd y ffordd yma yn cael ei ail-wynebu yn y flwyddyn ariannol yma. Nid oes cyllideb ar ôl ar gyfer y gwaith gan fod cost ail-wynebu ffyrdd, a oedd wei eu rhaglennu, eisoes wedi cynyddu'n sylweddol.  
Felly, gallaf gadarnhau y bydd y ffordd dan sylw yn cael ei ail-wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf, gyda'r ffordd ar dop y rhestr flaenoriaeth."
- (ii) Ymateb Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llyn ynglyn a'r canglwm mewn lleoliadau ym Mryncroes a phentref Sarn Mellteyrn, fel a ganlyn:  
"Mae'r Uned AHNE wedi trin y canglwm ar sawl safle yn ddiweddar ond gallwn gael golwg ar y lleoliadau sydd wedi eu crybwyll."

**Penderfynwyd** derbyn wybodaeth uchod.

#### **b) Eitem 102 – Cronfa Cyd-ymgyngori ar gyfer rheoli adnoddau dŵr – drafft Dŵr Cymru**

**Cyflwynwyd** llythyr Dr. Ian T. Brown, Pennaeth Awdurdod Dŵr – copi o'r llythyr a'r ddogfen eisoes wedi ei hanfon i bob aelod.

**Penderfynwyd** nodi derbyn y ddogfen a pheidio mynegi barn.

#### **c) Cronfeydd y Cyngor**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn atebiad gan Mel abOwain o Un Llais Cymru yn cadarnhau nad oes rhwystr ar y Cyngor i leihau nifer eu cyfrifon ond argymhellodd ein bod yn edrych ar y rheoliadau ariannol rhag ofn y bydd angen eu diwygio. Nododd ymhellach y byddai'n "cofnodi'r newid hwn yn glir ac yn rhoi penawdau ar wahan ar gyfer incwm a gwariant ar y fynwent yn eich cyllideb a'ch cyfrifon."

Ychwanegodd ei fod yn amgau copi o'r canllawiau ar fancio electronig er i'r Cyngor ystyried mabwysiadu'r rheoliadau diweddaraf.

Eglurodd y Clarc nad oedd wedi cael cyfle i edrych drwy'r rheoliadau newydd er canfod a oedd angen addasu/ychwanegu at y Rheoliadau Ariannol presennol a gofynnodd am yr hawl i wneud hynny pan fydd y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol yn mabwysiadu'r Rheoliadau.

**Penderfynwyd** gweithredu'n unol a'r argymhelliad uchod.

ch) **Eitem 106 – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ail dai**

**Adroddodd** y Clarc fod ymatebion i'r ymgynghoriad uchod wedi eu hanfon i'r gwahanol awdurdodau a diolchodd i'r Cyngorydd Michael Strain am ei chynorthwyo gyda'r atebion.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

110. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

- a) Cais C22/0135/32/DT – estyniadau deulawr cefn ac ochr i annedd presennol – I Tan y Foel, Sarn Mellteyrn.

Datganwyd diddordeb yn y cais hwn gan Y Cynghorwyr Elin Hughes a Dylan Parry Jones a bu iddynt adael yr ystafell drafod tra bu'r cais yn cael ei ystyried. Cymerwyd y gair gan Y Cyngorydd Carys H. Evans yn ystod trafodaeth a phleidleisio ar y cais hwn.

- b) Cais C22/0082/32/YA – codi adeilad newydd er mwyn storio peiriannau amaethyddol – Aelwyd, Sarn Mellteyrn.

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais

**Yn y cyswllt hwn**, cyfeiriodd y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, at gais C21/0266/32/LL - Minffordd, Bryn croes. Deallwyd fod bron i flwyddyn wedi mynd heibio er i'r cais gael ei gyflwyno heb dderbyn penderfyniad, a gofynnodd Y Cyngorydd Williams tybed a fyddai'r Cyngor yn barod i ysgrifennu at yr Adran Cynllunio yn gofyn am eglurhad.

**Penderfynwyd** anfon at yr Adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd, yn holi beth yw'r sefyllfa ynglyn a'r cais dan sylw.

111. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at:

Y tyllau dyfn a'r draen wedi dyfnhau ger Ty Mawr Capel, Bryn croes – y ffordd yn berygl a nodi fod y Cyngor sylw at y safle yma nifer o weithiau.

Gwestiwn dderbyniwyd gan un o drethdalwyr Cyngor Botwnnog sef 'beth yw polisi Cyngor Gwynedd 'nawr ynglyn ac agor ffosydd – agor un ochr i'r ffordd a chario'r pridd i'r ffos ochr arall a'i chau?' Cyfeirio 'roedd y trethdalwr at y gwaith wnaed o fynedfa fferm Graig Fael am Graig Ewig, Bryn croes.

**Yn y cyswllt hwn** gofynnodd Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir:

- a) a fyddai modd i'r Cyngor ofyn i'r Adran Llwybrau, Cyngor Gwynedd, am gael canllaw ar y gamfa sy'n mynd i'r Eglwys ym Mryn croes ger Bryn Llan.

**Penderfynwyd** anfon y cais ymlaen i'r Adran Llwybrau.

- b) Am gefnogaeth y Cyngor i'w gais i gael ymestyn yr arwydd 40mya ar y briffordd o Benygroeslon am Sarn – ymestyn i Groeslon Siop Lwyd, Penygroeslon.  
**Penderfynwyd** anfon y cais ymlaen at y Rheolwr Traffig a Phrojectau yng Nghyngor Gwynedd.
- c) **Tynnwyd** sylw at Y Cynghorydd Ifor Owen at y goryrru sydd ar y briffordd drwy Penygroeslon a gofynnodd a fyddai'n bosibl gofyn i'r Heddlu ddangos eu presenoldeb yn yr ardal.  
**Penderfynwyd** gweithredu'n unol â'r cais.

#### 112. **DYNODIAD PARC AWYR DYWYLL I AHNE LLYN**

**Cyflwynwyd** pamffled yn nodi awyr dywyll sydd ym Mhen Llŷn sef:

Maes parcio uchaf Nant Gwrtheyrn; maes parcio Penllech, Tudweiliog; Mynydd Mawr, Aberdaron a maes parcio Foel Gron, Mynytho.

I gael rhagor o wybodaeth gellir ei weld ar [www.discoveryinthedark.wales](http://www.discoveryinthedark.wales)

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### 113. **DIWEDDARIAD YMGYSYLLTU CYHOEDDUS 'ARDAL NI 2035'**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Gwynedd – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen. Nododd y Swyddog ei bod yn awry n awyddus i ymgysylltu a'r gymuned ehanagach er rhoi "cyfle i unigolion o fewn ein cymunedau i gymryd rhan yng ngham 2 cynllun 'Ardal Ni 2035.'

Nododd y wefan i'r trigolion allu ymled a hi sef

[www.dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru](http://www.dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru)

Hefyd gallai'r trigolion gael copi papur yn y llyfrgell, Siop Gwynedd lleol neu drwy ffonio Galw Gwynedd ar 01766 771000 i ofyn am gopi papur.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### 114. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc – cyflog £372.55 (siec 200747)

HMRC £ 93.20 (siec 200748)

Canolfan Bryncroes – tâl hurio

6 gwaith x £10 £ 60.00 (siec 200749)

Nodyn – eglurodd y Clarc na allai roi costau stampiau i fewn am y flwyddyn gan na allai ddod o hyd i'r derbyniadau o'r Swyddfa Bost.

#### 115. **MYNWENT LLANDEGWNNING**

**Agorwyd** dau dendr gan y Cadeirydd yng ngŵydd y Cyngor yn unol â rheol 65 o'r Rheoliadau Sefydlog. Sylwyd fod y ddau ddyfynbris yn agos iawn i'w gilydd, £150 o wahaniaeth yn y gwaith o dorri mynwent Llandegwning; £350 o wahaniaeth yn y gwaith o dorri Comin Bryncroes a phris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus ac unrhyw waith ychwanegol yn £7 yr awr yn fwy gan un o'r tendrwyd.

Trafodwyd y ddau bris a **phenderfynwyd**

(a) derbyn pris J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy fel a ganlyn:

Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw); **y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2022, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £550 + TAW**

Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) amgyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2021); **y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2022, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £1050 + TAW**

Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£17 + TAW yr awr.**

**Nodwyd** mai nid y tendr hwn oedd y tendr isaf ond gweithredwyd yn unol â rheol 66 o'r Rheoliadau Sefydlog, sef "ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf." Y rhewm am ddod i'r penderfyniad yma oedd fod Mr. J.A. Pozzi wedi gweithio i'r Cyngor am nifer o flynyddoedd bellach ac 'roedd safon ei waith bob amser yn arbennig o dda. Hefyd teimlwyd nad oedd digon o wahaniaeth yn y ddau dendr i newid ymgymwrwr ac hefyd na ddylid rhoi un rhan o'r gwaith i un ymgymwrwr a'r rhan arall i'r ymgymwrwr arall – byddai hyn yn cymhlethu pethau gan mai fel un tendr yr hysbysebwyd y gwaith.

**Nodyn pellach** – Er fod un pris heb TAW a'r pris dderbyniwyd gyda TAW yn ychwanegol, 'roedd y Cyngor yn gallu ad-hawlio'r arian yma'n ôl.

**Adroddwyd** ymhellach fod cais am grant wedi ei gyflwyno i AHNE Llyn am y giat newydd i'r fynwent a derbyniwyd ymateb nad oedd "cadarnhad wedi dod hyd yn hyn am gyllid y gronfa eleni eto." Addawodd y Swyddog ddod yn ôl at y Cyngor pan fyddai'r wybodaeth i law.

Diolchodd y Clarc i'r Cyngorydd Elin Hughes am gymorth i lenwi'r ffurflen cais.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### 116. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

**Tynnwyd** sylw unwaith yn rhagor at y pryder sydd gan gleifion ynglyn a Meddygfa Rhydbach, Botwnnog. Cafwyd ar ddeall fod yr ANP yn ymddeol ddiwedd y mis a si ar led fod un o'r Meddygon yn symud i ardal arall – nid oedd cadarnhad swyddogol i'r honiad olaf. 'Roedd y Cyngor yn pryderu os na fydd rhyw gamau yn cael eu cymryd i ddiogelu'r adnodd pwysig yma yn yr ardal y bydd argyfwng difrifol yn sicr o ddigwydd.

**Penderfynwyd** anfon fel mater o frys at Mabon abGwynfor, yr Aelod Seneddol, yn gofyn iddo ymyrryd yn y sefyllfa.

#### 117. **UN LLAIS CYMRU**

**Adroddodd** Y Cyngorydd Carys H. Evans iddi fynychu cyfarfod o Un Llais Cymru, Arfon/Dwyfor, ar 'zoom' ar 2ail Mawrth, 2022 a thynnodd sylw at y materion perthnasol:

Adroddiad Blynnyddol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth, 2021 – deallwyd fod nifer o Gynghorau heb dderbyn cadarnhad ac yn eu plith y Cyngor hwn.

Angen gosod cynllun hyfforddiant – penderfynwyd fod hyn i'w wneud yn y Cyfarfod Blynnyddol.

#### 118. **CYFLE I BERSON IFANC GYMRYD RHAN MEWN RHAGLEN NEWYDDION FOREOL I DDANGOS PWYSIGRWYDD O GOFRESTRU I BLEIDLEISIO**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Gyfarwyddwr Cyfathrebu yn gwahodd person ifanc i gymryd rhan mewn rhaglen foreol ar Radio Cymru rhwng 6.30 yb a 9 yb i ddangos pwysigrwydd o gofrestru i bleidleisio. Gan i'r e-bost ddod ddiwrnod y Cyngor ac angen cysylltu a'r Cyfarwyddwr erbyn 16eg Mawrth bu i'r Cyngorydd Elin Hughes fynd a'r cyfryw i Brifathro Ysgol Uwchradd Botwnnog.

**Penderfynwyd** nodi'r uchod.